

# Cylchlythyr / Newsletter

Tymor y Gwanwyn (Hanner Tymor 2) 2025 | Spring Term (Half Term 2) 2025



## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud yr hanner tymor hwn. Roedd gweld y plant yn perfformio ar lwyfan yr Eisteddfod Rhanbarth yn rhoi balchder mawr i mi ac ni allaf aros i weld Ysgol Gymraeg Gilfach ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai.

Hoffwn ddymuno'r gorau i'n Dirprwy Bennaeth dawnus iawn, Mr Perry-Hopton, ar ei absenoldeb tadolaeth ar ôl y Pasg. Mae Mr Perry-Hopton a'i ŵr yn mabwysiadu babi ac maen nhw'n llawn cyffro am eu hantur newydd fel teulu o dri. Bydd Mr Perry-Hopton i ffwrdd o'r ysgol am fis a dymunwn yn dda iddo. Bydd rolau a chyfrifoldebau Mr Perry-Hopton yn cael eu cyflawni gennyf i a Mrs James fel mesur interim. Pob lwc Aled a Martyn!

Edrychaf ymlaen at dymor llwyddiannus arall yn yr haf a llawer o ddiolch am eich cefnogaeth barhaus. Gobeithio i chi gyd gael Pasg gwyach ac edrychwn ymlaen at groesawu'r plant yn ôl ar ddydd Mercher!

I'm absolutely delighted with the progress that the school has made this half term. Seeing the children perform on stage in the Regional Eisteddfod gave me great pride and I cannot wait to see Ysgol Gymraeg Gilfach on stage at the National Eisteddfod in May.

I would like to wish our very talented Deputy Headteacher, Mr Perry-Hopton, the very best of luck for his paternity leave after Easter. Mr Perry-Hopton and his husband are adopting a baby and are beyond excited for their new adventure as a family of three. Mr Perry-Hopton will be away from school for a month and we wish him well. Mr Perry-Hopton's roles and responsibilities will be covered by myself and Mrs James as an interim measure. Good luck Aled and Martyn!

I am looking forward to another successful term in the summer and many thanks for your continued support. I hope you all had a great Easter and we look forward to welcoming the children back on Wednesday!



# Y Siarter Iaith



## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

|                      |                                                                                                               |
|----------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Targed 1<br>Target 1 | Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol<br><i>Use more Welsh outside of school</i>                            |
| Targed 2<br>Target 2 | Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg<br><i>Listen to more Welsh music</i>                                    |
| Targed 3<br>Target 3 | Gwyllo mwy o raglenni Cymraeg<br><i>Watch more Welsh programmes</i>                                           |
| Targed 4<br>Target 4 | Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau<br><i>Speak more Welsh on the yard and in the corridors</i> |
| Targed 5<br>Target 5 | Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg<br><i>Use more Welsh apps and technology</i>              |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

|                |                |
|----------------|----------------|
| Hello!         | - Shwmael!     |
| Good morning   | - Bore da      |
| Good afternoon | - Prynhawn da  |
| Good evening   | - Noswaith dda |
| Good night     | - Nos da       |
| How are you?   | - Sut wyt ti?  |
| May I have...? | - Ga i...?     |



## Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Y bardd o Montreal - Bryn Fôn a'r band  
Fyny ac yn ôl - Gwilym  
Heyla - Frizbee  
Can yr ysgol - Dafydd Iwan

## Ap y Mis



Duolingo



# Her Seren a Sbarc

Dyma 'Her Seren a Sbarc' mis Hydref. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

Here is the 'Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)' for the month of Hydref (October). Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf


Gwylwch 'Cacamwnci'  
Watch 'Cacamwnci'



Gofynnwch "Sut wyt ti'n teimlo?" Ask your friend 'Sut wyt ti'n teimlo?'



Canwch gân "Ti a Fi" gan Bronwen Lewis  
Sing along to "Ti a Fi" by Bronwen Lewis




Dawnsiwch i gân Seren a Sbarc  
Dance along to Seren a Sbarc's song



Chwaraewch gêm "Creu gyda Cyw" ar Cyw  
Play the "Creu Gyda Cyw" game on Cyw



Ewch am dro i ffeindio pethau brown / Go for a walk to find brown things





# Newyddion Dosbarth / Class News



**Dosbarth Branwen**  
Meithrin / Nursery

Rydym i gyd wedi mwynhau hanner tymor prysur arall. Ein stori yr hanner tymor yma oedd Y Tri Mochyn Bach. Adeiladwyd tri thŷ ar y buarth, tŷ o wellt, tŷ o frigau a thŷ o frics i ddarganfod pa un fyddai'r cryfaf. Yna trodd Miss Pugh ei sychwr gwallt yn y Blaidd Mawr Drwg a chwythodd y tai gwellt a brigyn i lawr. Cawsom gymaint o hwyl yn hwffio a phwffian a darganfod mai'r tŷ o frics oedd y cryfaf! Rydym mor gyffrous ar gyfer yr hanner tymor nesaf. Pa antur sy'n ein disgwyl!

*We have all enjoyed another busy half term. Our story this half term was The Three Little Pigs. We built three houses on the yard, a house of straw, a house of twigs and a house of bricks to find out which one would be the strongest. Miss Pugh then turned her hair dryer into the Big Bad Wolf and he blew the straw and twig houses down. We had so much fun huffing and puffing and discovered that the house of bricks was the strongest! We are so excited for next half term. What adventure awaits us!*



**Dosbarth Dwynwen**  
Derbyn/1/2 / Reception/1/2

Yn ystod yr hanner tymor yma, rydym wedi mwynhau dysgu stori Jac a'r Goeden Ffa a disgrifio'r cymeriadau gan ddefnyddio ansoddeiriau diddorol. Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn garddio ac yn tyfu ein coesyn ffa ein hunain, gyda'r tywydd hyfryd maen nhw wedi tyfu'n wych! Gobeithio bydd ffa cyn bo hir. Edrychon ni am arwyddion y gwanwyn gan ddefnyddio ein synhwyrâu a dysgu am gylchred bywyd planhigyn. Yn mathemateg, rydym wedi bod yn cyfrif mewn 2, 5 a 10 ac yn mesur yn ofalus i'r centimetr agosaf.

*During this half term, we have enjoyed learning the story of Jack and the Beanstalk and describing the characters using interesting adjectives. We have been very busy gardening and growing our own bean stalks, with the lovely weather they have grown fantastically! Hopefully there will be beans soon. We looked for signs of spring using our senses and learned about the life cycle of a plant. In mathematics, we have been counting in 2s, 5s and 10s and measuring carefully to the nearest centimetre.*

# Newyddion Dosbarth / Class News



**Dosbarth Gelert**  
*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

Diwedd i hanner tymor prysur arall! Yn ystod yr hanner tymor hwn, buom yn canolbwyntio ar faes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth. Canolbwyntiwyd ar ddeunyddiau ac archwilio eu priodweddau. Archwiliwyd tarddiad deunyddiau amrywiol, gan ymchwilio i'w pwrpasau a deall pam eu bod yn cael eu defnyddio. Fe wnaethom hefyd archwilio'r gwahaniaethau rhwng solidau, hylifau a nwyon, gan nodi enghreifftiau o wrthrychau sy'n perthyn i bob un o'r categorïau hyn. Uchafbwynt yr hanner tymor oedd y trip ysgol i Stadiwm Dinas Caerdydd. Mwynhaodd y plant y profiad hwn yn fawr ac roeddent yn chwilfrydig iawn.

*An end to another busy half term! During this half term, we focused on the science area of learning and experience. The focus was on materials and exploring their properties. We explored the origin of various materials, delving into their purposes and understanding why they are used. We also explored the differences between solids, liquids, and gases, identifying examples of objects that fall into each of these categories. A highlight of the half term was the school trip to Cardiff City Stadium. The children thoroughly enjoyed this experience and were very inquisitive.*



**Dosbarth Bendigeidfran**  
*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*

Mae Dosbarth Bendigeidfran wedi gwir fwynhau archwilio a datblygu eu sgiliau gwyddoniaeth yr hanner tymor hwn. Rydym wedi ymchwilio i bynciau hynod o ddiddorol fel deunyddiau a'u priodweddau, y gylchred dd ŵr, a'r gwahaniaethau rhwng ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy. Rydym wedi cwblhau arbroffion ymarferol a wnaeth ddod â'r cysyniadau hyn yn fyw. Gwelsom beth ddigwyddodd i ia, d ŵr oer a d ŵr poeth ar ôl 24 awr ar dymheredd ystafell. Buom hefyd yn ymchwilio i'r newidiadau mewn gwahanol fathau o ffrwythau dros amser, gan ddadansoddi ein harsylwadau a llunio casgliadau o'r hyn a ganfuwyd.

*Dosbarth Bendigeidfran have really enjoyed exploring and developing their science skills this half term. We have delved into fascinating topics such as materials and their properties, the water cycle, and the differences between renewable and non-renewable energy. We completed hands-on experiments that truly brought these concepts to life. We observed what happened to ice, cold water, and hot water after 24 hours at room temperature, sparking curiosity and insightful discussions. We also investigated the changes in different types of fruit over time, analyzing their observations and drawing conclusions from what they found.*



# Newyddion Dosbarth / Class News



## Canolfan Gwenllian

*Amrywiol / Various*

Dyma ddiwedd tymor y gwanwyn yng Nghanolfan Gwenllian! Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yn datblygu ein sgiliau llafar ac mae ein hyder ni wedi mynd o nerth i nerth. Rydym ni wedi cael llawer iawn o hwyl wrth weithio trwy nifer fawr o themâu. Dysgon ni sut i archebu a phrynu bwyd, trafod y tywydd a disgrifio ein hanifeiliaid anwes.

Cawson ni hwyl yn creu pítsa, a gwnaethon ni hyd yn oed cyflwyno rhagolwg tywydd. Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd llwyddo tyfu planhigion ffa. Gyda'r tywydd hyfryd maen nhw wedi tyfu'n dal iawn!

This is the end of spring term at Canolfan Gwenllian! We have been very busy developing our oracy skills and our confidence has gone through the roof! We have had lots of fun working through a variety of topics and themes. We learnt how to order and purchase food, discuss the weather and describe our pets.

We had fun creating pizzas and we even had a go at presenting the weather. One of our highlights was succeeding in growing runner bean plants. With the lovely weather they have grown really tall!

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| Dyddiad / Date    | Digwyddiad / Event                                                                                                              |
|-------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 28/4/25           | Diwrnod HMS / <i>INSET Day</i>                                                                                                  |
| 29/4/25           | Diwrnod HMS / <i>INSET Day</i>                                                                                                  |
| 5/5/25            | Gŵyl y Banc / <i>Bank Holiday</i>                                                                                               |
| 7/5/25            | Arweinwyr Digidol yn Rhedeg Cyfarfod Staff (3:30yp - 4:30yp) / <i>Digital Leaders Running a Staff Meeting (3:30pm - 4:30pm)</i> |
| 12-16/5/25        | Llangrannog (Blwyddyn 5) / <i>Llangrannog (Year 5)</i>                                                                          |
| 13/5/25           | Ymweliad Staff Cwm Rhymni (Blwyddyn 6) / <i>Cwm Rhymni Staff Visit (Year 6)</i>                                                 |
| 16/5/25           | Diwrnod Seren a Sbarc                                                                                                           |
| <b>26-30/5/25</b> | <b>Wythnos Hanner Tymor / <i>Half Term Week</i></b>                                                                             |
| 2-20/6/25         | Gwersi Nofio (Blwyddyn 5/6) / <i>Swimming Lessons (Year 5/6)</i>                                                                |
| 19/6/25           | Noson Agored Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Rhieni Blwyddyn 5/6) / <i>Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Open Evening (Year 5/6 Parents)</i>       |
| 24/6/25           | Diwrnod Pontio (Blwyddyn 6) / <i>Transition Day (Year 6)</i>                                                                    |
| 24/6/25           | Mabolgampau (Meithrin-Blwyddyn 2) / <i>Sports Day (Nursery-Year 2)</i>                                                          |
| 25/6/25           | Mabolgampau (Blwyddyn 3-6) / <i>Sports Day (Year 3-6)</i>                                                                       |
| 27-29/6/25        | Bae Caerdydd (Blwyddyn 6) / <i>Cardiff Bay (Year 6)</i>                                                                         |
| 16/7/25           | Taith Haf Mambos / <i>Mambos Summer Trip</i>                                                                                    |